**Ken Skates AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mick Antoniw AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Caerdydd
CF99 1NA

15 Tachwedd 2017

Annwyl Mick

Rwyf wedi gosod Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol ('y memorandwm') sy'n gysylltiedig â Rheoliadau Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (Diwygiadau Amrywiol gysylltiedig â Harbyrau, priffyrdd, a Tratnidiaeth) 2017, a osodwyd gerbron y Senedd ar 13 Tachwedd 2017, gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth. Mae'r Rheoliadau hyn yn cynnwys Cymru a Lloegr, ac mae rhannau ohonynt hefyd yn cynnwys yr Alban. Dônt i rym ar 5 Rhagfyr 2017. Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Deddf Harbyrau 1964 a Deddf Priffyrdd 1980 er mwyn trosi Cyfarwyddeb 2014/52/EU (Cyfarwyddeb Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol, neu Gyfarwyddeb EIA) fel y bo'n berthnasol i ddeddfwriaeth trafnidiaeth.

Y Gyfarwyddeb:

- Cadarnhau y rhyng-berthynas rhwng y Gyfarwyddeb EIA a chyfarwyddebau amgylcheddol eraill (e.e. Cyfarwyddeb Cynefinoedd).
- Mae'n golygu bod angen cynnwys gwybodaeth ychwanegol yn y datganiad amgylcheddol (y cyfeirir ato hefyd fel adroddiad asesiad o'r effaith amgylcheddol), megis gwybodaeth am yr effaith ar y newid yn yr hinsawdd, a'r boblogaeth a iechyd dynol.
- Mae'n galw am fwy o dryloywder o fewn y broses EIA, yn benodol yn nhermau swyddogaeth y Sefydliad sy'n Goruchwylio.
- Cryfhau'r gofyniad o benderfynu ar brosesau sgrinio.

Mae'r darpariaethau hyn yn dechnegol, yn cwmpasu gofynion caffael EIA ac elfennau o egluro'r drefn bresennol. Nid ydynt yn diwygio y polisi gwaelodol y tu ôl i'r EIA, dim ond y gofynion sut y caiff yr EIAau eu cyflawni. Mae'r diwygiadau i ddeddfwriaeth sylfaenol wedi eu pennu yn y memorandwm.

Rwyf wedi gosod y memorandwm yn unol â'r gofyniad o dan Offeryn Statudol 30A i 'aelod o Lywodraeth Cymru …[i]…osod memorandwm (memorandwm cydsyniad offeryn statudol) sy'n gysylltiedig ag unrhyw offeryn statudol perthnasol sy'n cael eu gosod gerbron Senedd y DU gan Weinidogion y DU'. Rwy'n ystyried y Rheoliadau yn offeryn statudol perthnasol gan eu bod yn gwneud darpariaethau sy'n gysylltiedig â Chymru gan ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol, ac nid ydynt yn

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

faterion sy'n gysylltiedig neu'n dilyn materion sydd y tu allan i gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol. Fodd bynnag, nid wyf yn bwriadu cyflwyno Cynnig Cydsyniad Offeryn Statudol ar gyfer trafodaeth.

Mae'r Rheoliadau wedi eu gwneud trwy weithdrefn negyddol. Cawsant eu gweund cyn yr un diwrnod ag y cânt eu gosod, ac ar yr amod nad oes Aelod Seneddol yn mynd yn eu herbyn, byddant yn dod i rym 21 diwrnod wedi iddynt gael eu gosod. Chi sydd i benderfynu fel Pwyllgor a ydych i ystired ac adrodd ar y memorandwm, fel y cyfeiriodd y Pwyllgor cyfrifol o dan Orchymyn Sefydlog 30A. Rwyf wedi ystyried yn ofalus i osod Cynnig Cydsyniad Offeryn Statudol o dan Reol Sefydlog 30A, i'w drafod wedi'r 35 niwrnod a ganiateir ar gyfer craffu gan y Pwyllgor cyfrifol ddod i ben. Nid yw'n ofynnol i Lywodraeth Cymru wneud hynny, ond fel arfer byddem yn cyflwyno cynnig i'w drafod fel y gall y Cynulliad gydsynio, neu ddim, i'r darpariaethau perthnasol cyn llunio yr offeryn statudol.

Gan na fyddai unrhyw effaith ymarferol i drafodaeth o'r fath, rwyf wedi penderfynu i beidio â chyflwyno Cynnig Cydsyniad Offeryn Statudol ar gyfer trafodaeth. Mae'n rhaid penderfynu ar bob achos yn ôl ei ragoriaethau, ac mae pob un o'r diwygiadau hyn, er yn niferus, hefyd yn dechnegol a gweithredol eu natur. Nid ydynt yn diwygio polisïau yng Nghymru, dim ond sut i gynnal yr EIAau. Nid wyf yn teimlo bod unrhyw rinwedd cynnal trafodaeth ble y mae'r newidiadau yn dechnegol eu natur a ble nad yw canlyniad y drafodaeth yn debygol o gael effaith ymarferol. Mae gan unrhyw Aelod o'r Cynulliad wrth gwrs hawl i gyflwyno eu memorandwm eu hunain i'w drafod os ydynt yn teimlo'n gryf y dylid ei drafod.

Yn gywir

**Ken Skates AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth